

## ***Cyngor Cymuned Llanllyfni*** **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor Nos Fawrth y 9ed o Fedi 2008.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr: Ifan Glyn Jones (Cadair), Elwyn Jones Griffith, Ann Vaughan Jones, Megan Thomas – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Owen, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; T Leslie Jones – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Eurig Wyn Evans – Nebo; OP Huws – Cynghorydd Sir.

Gwahoddwyd Hywel Williams AS i'r cyfarfod. Rhannodd Mr Williams ei bryderon am y cynllun o gau swyddfeydd post. Gofynwyd i'r Cyngor yrru llythyr yn datgan pryderon y Cyngor. Gofynwyd i Mr Williams bwysu ar y Swyddfa Bost i gael y fan 'Outreach' i ymweld a mwy o bentrefi e.e Llanllyfni er mwyn cael mwy o ddefnydd ohoni a gwarchod y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Bu trafodaeth hefyd ar werthiant Tai Cyngor gan y Cyngor, a'r hawl sydd gan y Cynulliad i wahardd hyn. Cafwyd trafodaeth ar y posibilïad o garchar newydd yng Nghaernarfon. Os daw carchar yno, yna byddai rhaid sicrhau y byddai yn garchar ar gyfer pobl o Ogledd Cymru, a bod dwyieithrwydd yno o'r cychwyn. Bydd y penderfyniad ar safle carchar newydd i Gymru yn cael ei wneud ddiwedd mis nesaf. Dywedodd Mr Williams bod croeso i unrhyw un ysgrifennu at David Hanson o'r Weinyddiaeth i roi barn.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- 10 Market Place, Penygroes – estyniad deulawr ac unllawr ar gefn yr eiddo.
- Arqiva Transmitting Station, Brynychain, Nazareth – gosod 3 lloeren antena ar fast. Roedd pryder am effaith ymbelydredd, a byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi pwy sydd yn monitro.
- Gorsaf Dwr Cwm Dulyn, Nebo – creu mynediad cerbydau, lon fynediad a gorsaf bwmpio.
- Buarthau, Lon Ddwr, Llanllyfni – Dymchwel ty presennol, codi ty deulawr newydd, creu mynedfa a gosod tanc septig.
- Tir ger Bryn Rhedyw, Llanllyfni – codi 9 ty dormer fforddiadwy i gynnwys 4 ty par a ty ar ben ei hun, newidiadau i ffordd a darpariaeth parcio i dai cyfagos.
- Quarrymans Arms, 12 Rhedyw Road, Llanllyfni – dymchwel yr adeilad presennol a chodi 5 o dai.

Caniatawyd y ceisiadau isod gan yr Awdurdod berthnasol:

- 73 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – dymchwel estyniad unllawr a chodi estyniad deulawr newydd i gefn eiddo.
- Coed Gwinllan, Tyddyn Hen, Penygroes – creu mynediad newydd yn gysylltiedig a rheolaeth coedwigaeth.
- Neuadd Goffa Llanllyfni – lleoli portacabin wrth gefn y Neuadd.
- 10 Market Place, Penygroes – estyniad deulawr ac unllawr cefn.
- 66 Ffordd Bryncelyn, Talysarn – estyniad deulawr cefn.
- Plot 1 Stad Ddiwydiannol Penygroes – codi adeilad diwydiannol newydd.
- Arqiva Transmittin Station, Nazareth – gosod 3 lloeren antena ar fast.
- 20 Teras Eifion, Talysarn – estyniad deulawr cefn.

Gwrthodwyd cais amlinellol i godi byngalo yn Nant y Mynydd, Ffordd Rhiwlas, Talysarn.

Derbyniwyd llythyrâu gan Gyngor Gwynedd gan gynnwys y canlynol;

- Bydd Cyngor Gwynedd yn clirio Canclwm Japaneaidd o faes Parcio Llanllyfni.
- Byddwn yn gofyn i'r Cyngor fynd yn ol i docio mwy ar y coed yn Cae Catrin, Penygroes.
- Byddai tynnu'r cerrig sydd ar draws mynedfa llwybr Gloddfa Glai, Talysarn yn golygu na fyddai rhwystr i feiciau modur ac ati fynd ar y llwybr. Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i'r sefyllfa.
- Cist Gwynedd 2008-09. Byddwn yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi os oes arian ar gael, er mwyn gwneud cais am ddwy giat newydd i fynwent MacPelah, Penygroes a mainc.

## Adroddiadau Pentrefi.

Talysarn – derbyniwyd cwyn am ffens yn Gloddfa Glai, Talysarn; Coed angen eu torri ar Ffordd Penygroes-Talysarn – y gwaith tocio wedi ei wneud.

Penygroes – y Fic – angen gwarchod y safle. Bydd y Cyngor yn ysgrifennu at y perchennog;

\*Bylchau yng nghanol pennau llechi wal y ddwy ochr ger cylchfan Poveys; \*Anodd gweld i lawr am Llanllyfni wrth yrru o gyfeiriad y ffordd osgoi am Benygroes. Tyfiant a'r railings yn fwgwd – angen torri mwy o'r coed i gyfeiriad y ffordd osgoi; \*Y blodau yn y 'tryc' ar y gylchfan ddim yn tyfu oherwydd bod y gromlech sydd drostynt yn fwgwd i'r haul. Byddwn yn gofyn os oes posib symud y tryc fel nad ydi oddi tan y gromlech; Byddwn yn holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am y linell felyn sydd i fod i gael ei phaentio tu allan i'r Neuadd Goffa, ac hefyd gofyn pa bryd fydd Lon Eifion yn cael ei marcio yr ochr draw i'r bont.

Nantlle – coed ger Fferm Ffridd a Ty Coch – y gwaith tocio wedi ei wneud.

Nebo – llwybr heibio Llwydcoed arwydd wedi torri, a'r ddwy ben o'r llwybr wedi cau – byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn i'r Swyddog Llwybrau gerdded y llwybr – nid yw yn glir iawn pa ffordd mae'r llwybr yn mynd, a does dim giat na chamfa i fynd dros y wal yn y cae. Hefyd, steps pont ger y Cwm Dulyn yn llithrig ofnadwy, byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd osod 'mesh' arni – cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Llanllyfni – Dwr yn codi yn y lon tu ol i Ffordd Rhedyw ger giat y fynwent; Tyfiant ar y llwybr o'r cae chwarae i Lon Ddwr – byddwn yn cysylltu gydag Alun Wyn Jones; Cyngor Gwynedd wedi derbyn cwyn bod traffic yn achosi difrod i eiddo wrth yrru drost y twmpath cyntaf sydd ar y ffordd (o gyfeiriad Penygroes) ac yn gofyn am sylwadau'r Cyngor Cymuned ar dynnu'r twmpath. Hefyd gofyn am sylwadau'r Cyngor ar symud y 30mya ymhellach oddi wrth y ffordd osgoi a'i roi ger y twmpath cyntaf. Y Cyngor yn cytuno i gael tynnu'r twmpath, ond yn credu y dylid gosod yr arwydd 30mya ar y ffordd rhwng y ffordd osgoi a'r gylchfan

Cafwyd cystadleuaeth arddio llwyddiannus eto eleni – rhannwyd y Tystysgrifau. Diolchwyd Elwyn am dywys y beiriniaid o amgylch y gerddi, ac am dynnu lluniau o'r gerddi. Gobeithiwn gael **mwy** o ymgeiswyr yn y categori tai preifat y flwyddyn nesaf – byddwn yn hysbysebu'r gystadleuaeth yn y papur newydd. Hefyd, byddwn yn cynnal Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig fis Rhagfyr, fel yr arfer, gan obeithio gweld nifer o gartrefi wedi eu addurno.

Deallai'r Cyngor bod yr Heddlu am ddefnyddio'r tir sydd ganddynt ym Mhenygroes i adeiladu gorsaf newydd, ac felly ni fydd ar gael ar gyfer datblygu parc.